

# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Chwefror 4ydd yn Neuadd Mynach. Yn bresennol oedd Alwyn Jones (Cadeirydd), Alwyn Roberts, Gethin Morris, Gwenda Evans, Eilir Rowlands, Iwan Griffiths, Maldwyn Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Tina Davies, Gwenda Morris, Eifion Davies a Adrian Williams.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

## Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

## Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

### Mesuriadau cyflymder ar yr A494.

Cafwyd eglurhad gan yr Asiantaeth Priffyrdd nad oedd yr archwiliad o'r ffordd wedi ei gwblhau eto ond roedd wedi dod i'r amlwg bod nifer uwch na'r disgwyl o ddamweiniau beic modur. Unwaith fydd yr adroddiad wedi ei gwblhau bydd darlun cliriach o'r sefyllfa ond roedd unrhyw waith yn ddibynnol ar dderbyn cyllid gan y Llywodraeth.

Ymateb i'r cwynion a anfonwyd i Gyngor Gwynedd:-

### Arwydd ar stad Cae Derwen, Llandderfel.

Cafwyd cadarnhad gan y Cyngor mae'r adeiladwyr oedd yn gyfrifol am osod arwydd enw'r stad.

### Gwasanaeth Bws o Frongoch i Ysgol Berwyn.

Yn dilyn astudiaeth o'r A4212 roedd y Cyngor wedi ail-ystyried eu bwriad i godi tal ar y plant a oedd yn defnyddio'r bws ysgol.

### Pont Llandderfel.

Adroddodd y clerch ei bod wedi mynychu cyfarfod ar y safle gyda'r Cyng. Elwyn Edwards a swyddogion Cyngor Gwynedd ac erbyn hyn roedd y gweithlu wedi atgyweirio'r wal. Gofynnwyd i'r clerch dynnu eu sylw i ddifrod pellach i'r wal ger Bryn Bwlan.

## Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

### a) Partneriaeth Penllyn/ Cwmni Pum Plwy Penllyn.

i) Cafwyd adroddiad o ddatblygiadau diweddaraf Canolfan yr Henblas. Adroddodd y clerch ei bod wedi mynychu'r diwrnod agored ym mis Ionawr ac roedd posib i unrhyw un a oedd gyda diddordeb mewn rhentu ystafell gysylltu â'r swyddog marchnata i gael rhagor o wybodaeth.

ii) Derbyniwyd copi o gofnodion cyfarfod diwethaf y Bartneriaeth, 27/1/14 gyda chais am y cyfraniad ariannol i'r Henblas. Cytunwyd i'w drafod y mater gyda gweddill o'r materion ariannol.

### b) Cyngor Gwynedd

i) Yn dilyn y ffurflen datgan diddordeb yn y Gronfa Gwefan roedd y clerch wedi derbyn ffurflen cais ar gyfer y cynllun. Yn dilyn trafodaeth gyda'r cynghorau Cymuned a Thref roedd y ffurflen wedi cael ei chwblhau ac roedd amcan bris yn cael ei baratoi ar gyfer y wefan newydd.

ii) Derbyniwyd dogfennau gwybodaeth am y Cod Ymddygiad, Ffurflenni Datganiad Buddiant Personol ayyb a holiadur byr i'r Cyngor Cymuned gwblhau.

iii) Derbyniwyd llythyr yn ein cynghori bod y Cyngor wedi cychwyn adolygu categorïau Hawliau Tramwy cyhoeddus ac y byddant yn dosbarthu map newydd i'r Cyngor Cymuned yn fuan.

iv) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol - Chwefror 2014.

- v) Copïau o'r gwaharddiadau a'r gorchmynion cyhoeddus a oedd yn ymwneud a'r gwaith yn Stryd Trafalgar, Llandderfel.
- vi) Llythyr a holiadur ynglŷn â'i bwriad i ymgynghori gyda'r cyhoedd i annog ail gylchu a chompostio bwyd. Gofynnwyd i'r clerc gwblhau'r holiadur ar ran y Cyngor

#### c) Un Llais Cymru.

- i) Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal yn y Pafiliwn Criced, Dolgellau ar y 15/1/14am 7.00y.h.
- ii) Derbyniwyd gwahoddiad i arddwest Palas Buckingham a gynhelir ym mis Mai a Mehefin.
- iii) Copi diweddaraf 'Y Llais' a'u cylchlythyr Gaeaf 2013/14.

#### ch) Amrywiol.

- i) Cymdeithas Tai Clwyd - derbyniwyd gwahoddiad i'r diwrnod agored yn Awel y Coleg, 15/1/14.
- ii) Cyngor Tref Y Bala - derbyniwyd e-bost yn holi'r Cyngor os oedd ganddynt ddi-ddordeb mewn cydweithio ar gynnal cwrs hyfforddi Cyllid. Cytunwyd mewn egwyddor i gyd-weithio gyda'r cynghorau lleol eraill.
- iii) Heddlu Gogledd Cymru – llythyr yn ein cynghori o'i ymgyrch 'Amnest Cyllyll' a 'Trechu Trosedd'.
- iv) Parc Cenedlaethol - llythyr yn ein cynghori o'r her gyllidol oedd y Parc yn ei wynebu a'r prif feysydd fyddai'n cael eu heffeithio gan y toriadau.
- v) Cyngorair Cymunedau Cymraeg - Gwahoddiad i'r Cyfarfod Blynyddol, 1/3/13 yn Llangefni.

#### Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-

C13/1198/04/LL – Newidiadau i fynedfa amaethyddol. Tir ger Dol Tudor, Llandderfel.

C14/0007/04/LL - Adnewyddu caniatâd cynllunio ar gyfer tair uned wyliau hunan arlwyo. Bryn Selwrn, Llandderfel.

Gan nad oedd y Cyngor wedi cyfarfod ym mis Ionawr roedd y clerc wedi cysylltu â'r cynghorwyr i drafod y ceisiadau. Cytunwyd i'w cefnogi.

Derbyniwyd cadarnhad bod y cais canlynol wedi cael ei wrthod:-

NP5/63/268 - Cynllun trydan ddŵr. Afon Hesgyn

#### Materion Ariannol.

##### a) Eglwys St. Mor a Deiniol, Llanfor.

Cafwyd cadarnhad gan y clerc bod gwerthiant yr hawl tramwy wedi cael ei gwblhau a bod y Cyngor wedi derbyn sic drwy law Guthrie Jones & Jones (yn cynnwys ad-daliad bychan gan y Gofrestr Tir). Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau ynglŷn â chael copi o'r dogfennau a manylion cyswllt y perchennog newydd.

##### b) Cynllun Diffyg yn y Cyfrif Claddu.

Adroddodd y clerc eu bod wedi derbyn taliad o £1236.83 am y golled a wnaed yn 2012-13 gan Gyngor Gwynedd.

##### c) Cyllideb a Praesept 2014-15

Cafwyd braslun o'r gyllideb ar gyfer 2014-15 gan y clerc, a chafwyd yn gywir. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i godi'r Praesept i £6900 ar gyfer 2014-15.

##### ch) Cyfraniad i'r Henblas.

Yn nol yr hyn a drafodwyd ym mis Hydref roedd y Cyngor wedi cael yr argraff mae yn y flwyddyn ariannol nesa y disgwylir y taliad. Cytunwyd i anfon yn nol i egluro y byddai'r Cyngor Cymuned yn anfon y cyfraniad ar ôl iddynt dderbyn taliad cyntaf y Praesept ym mis Ebrill.

d) Cytunwyd i dalu canlynol:-

Cyflog y cleric (Hydref i ddiwedd Rhagfyr)

Paul Cook (agor bed ym mynwent Llandderfel)

John Roberts (archwilydd mewnol)

d) Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Bwyllgor Llen y Llannau, Eisteddfod Llandderfel, Theatr Bara Caws, Eisteddfod Llangollen a Dawns i Bawb. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

**Materion lleol.**

Gofynnwyd i'r cleric basio'r cwynion canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd:-

i) Ar rhai adegau roedd 3 neu 4 o geir yn parcio ar ochr y ffordd ger Penisa'r Llan ac roedd gyrwyr yn gorfod croesi i ochr arall y ffordd i'w pasio. Gallai hyn fod yn beryg os oedd car yn dod i mewn i'r pentref o gyffordd Bala.

ii) Roedd pyllau mawr o ddŵr yn hel ar y ffordd ger Dolgadfa, Llandderfel a ger Llawrbetws Isa, Glanrafon. Roedd gwter wedi tagu tu allan i 8 Tan y Foel, Llanfor ac roedd peryg i'r dŵr lifo i'r garej gerllaw.